# Y BIGWN

CYF. 35 RHIF 3 MAI 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Noson Cryfder mewn Comedi - Nerth dy Ben




Hanes tudalen 13




Y criw gweithgar yn gweini llymed i'r gynulleidfa yn Theatr Twm o'r Nant



Yr actor lleol, Daniel Lloyd gyda Gwyn Evans ac Edwina Stephen, gwirfoddolwyr y Clwb Ffilmiau


**Y Sŵn a'r bwrlwm yn rhoi ffocws i wirfoddolwyr y Clwb Ffilmiau tudalen 10/11**

## Dyfodol Y Bigwn

**Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Y Bigwn yn Festri Capel y Fron ar nos Lun Mehefin 12fed, am 7 o'r gloch.**

**Gweler tudalen 3 am fwy o fanylion.**

## O Drawsfynydd i Ddyffryn Clwyd  tud 21




## Hel atgofion mewn arddangosfa treftadaeth   Tud 9



Ymwelwyr yn gwrando ar rai o'r hanesion



Gwenno Williams, yn ei hail flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor, a fu'n gwirfoddoli gyda'r Fenter Iaith dros gyfnod y Pasg




Carys Harries a Lilian Jones. Amgueddfa ac Archif Dinbych

# Gair gan y Golygydd

Dwi am gadw hwn yn fyr iawn y mis yma er mwyn gadael lle i'r neges bwysig gan y swyddogion yn y llythyr isod.

Dwi wedi clywed llawer yn awgrymu dros y blynyddoedd mai'r ffordd orau o sicrhau dyfodol i'r Gymraeg yw trwy weithio yn ein cymunedau, yn trefnu a mynychu digwyddiadau, gwirfoddoli gyda'r papur bro (gweler isod) ac ati. Dwi'n cytuno bod gwneud hyn yn holl bwysig ond tydi hynny ynddo ei hun ddim yn ddigon. Heb gefnogaeth wleidyddol i'r Iaith ac i hunaniaeth ein cenedl ni fydd yn llewyrchus a mae angen gweithredu gwleidyddol cyfansoddiadol ac anghyfansoddiadol i wneud hynny. Peidiwn a gadael y gweithredu a'r pwyso gwleidyddol i'r ifanc yn unig.

Mae dau gyfle i ymuno yn y frwydr yn ystod y mis hwn. Yn gyntaf bydd Rali Nid yw Cymru ar Werth yng Nghaernarfon ar Ddydd Llun, 8ed sy'n ŵyl banc am ryw reswm. Yna ar yr 20ed o Fai bydd Gorymdaith Annibyniaeth yn Abertawe. Bydd bws yn teithio i lawr o Ddinbych. Manylion ar wefan Yes Cymru. Gobeithiaf eich gweld yn y ddau ddigwyddiad.

*Dyfrig Berry*

# ARGYFWNG I'R BIGWN

Yn rhifyn Mawrth 9fed eleni o'r cylchgrawn "Golwg" roedd erthygl hynod ddiddorol yn dwyn y teitl "Papur Bro Cyntaf Cymru'n 50 Oed". Y papur hwnnw yw "Y Dinesydd", sef papur bro ein prifddinas. Yn ôl yr erthygl "mae Pwyllgor Y Dinesydd yn awyddus iawn i gael gwaed newydd a denu darllenwyr ifanc." Yn ôl Gwilym Roberts, cyn-Gadeirydd y papur, sy'n parhau yn golofnydd misol, "Yr her nawr ydy denu darllenwyr a chyfranwyr ifanc, ynghyd â chael aelodau iau ar y pwyllgor."

Nid yw'r sefyllfa hwn yn unigryw o bell ffordd, ac i nodi un esiampl arall yn unig, fe gynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ym mis Tachwedd 2019 i drafod sefyllfa argyfyngus "Eco'r Wyddfa", papur bro Eryri, un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, a sefydlwyd ym 1976. Roedd y gwirfoddolwyr yn rhybuddio "y bydd yn rhaid i'r papur ddod i ben os na fydd gwirfoddolwyr newydd, ieuengach yn camu i'r adwy." Yn ôl Tony Elliott, cadeirydd y pwyllgor gwaith, roedd gwir angen "gwaed newydd" a dywedodd, "Mae'n argyfwng bellach - os na gawn ni rywun, mae'n bosib ella bydd rhaid dod â'r papur i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth. Fel lot o bapurau bro, mae lot o'r swyddogion yn heneiddio ac mae 'na lai o bobl isio cymryd cyfrifoldebau."

Mae'n amlwg fod y cyfarfod cyhoeddus wedi dwyn ffrwyth gan i "Eco'r Wyddfa" fynd o nerth i nerth gan barhau i gael eu gyhoeddi'n fisol.

Mae nifer fawr o'n papurau bro wedi wynebu, ac yn wynebu, yr un argyfwng, ac mae'r mater wedi bod yn bwnc llosg yn y cyfryngau ar sawl achlysur. Yn anffodus, dyna sefyllfa presennol ein papur ni, "Y Bigwn", a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 1988, sy'n wynebu union yr un heriau â'r "Dinesydd", "Eco'r Wyddfa" a nifer o bapurau bro eraill . Yng nghyfarfod y pwyllgor yn ddiweddar, datganodd Stan Lyall ei fwriad i ymddiswyddo fel Cadeirydd ar ôl nifer o flynyddoedd yn y swydd. Hoffem fanteisio ar y cyfle i dalu teyrnged i'r holl waith mae Stan wedi wneud i'r papur dros y blynyddoedd, ac yn parhau i wneud fel colofnydd rheolaidd a dosbarthwr ffyddlon. Diolch o galon i ti Stan!

Yn anffodus, doedd neb yn fodlon ymgymryd â'r swydd, ond mae John Davies wedi cytuno i lenwi'r bwlch dros dro, **a dros dro yn unig**, er mwyn cael rhywun i gadeirio'r cyfarfod nesaf.

Yn ogystal â hyn, dim ond pedwar golygydd sydd gennym, yn gyfrifol am ddeg rhifyn bob blwyddyn, sy'n golygu dau neu dri rhifyn yr un yn flynyddol. Ac ychydig ddyddiau'n ôl daeth y newyddion fod un o'r golygyddion wedi'n hysbysu mai, oherwydd pwysau gwaith bob dydd, dim ond un rhifyn y flwyddyn mae'n gallu ei olygu. Gwelwn ddim bai o gwbl ar yr unigolyn am ddod i'r penderfyniad hwn. Mae'n hollol amlwg erbyn hyn fod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy ac mae wir angen gwaed newydd ifanc ac egnïol ar y pwyllgor a mwy o olygyddion i sicrhau dyfodol "Y Bigwn".

→

**Dyddiad cau Y BIGWN mis Mehefin**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - gwybod@ybigwn.cymru erbyn Mai 23**

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Mehefin Martha Cordiner**

Mae un ateb syml i'r argyfwng hwn wrth gwrs, sef bod "Y Bigwn" yn dod i ben. Ond rydym yn eithaf hyderus nad dyna yw dymuniad trigolion Dinbych, yn arbennig y rhai sy'n darllen y papur yn rheolaidd.

## OND MAE ANGEN EICH CYMORTH AR FYRDER!

Heb eich cymorth mae'n eithaf posib nad oes dyfodol i'r "Bigwn".
Dywedodd rhywun rywbryd fod papurau bro yn dueddol o ganolbwyntio ar dair cenhedlaeth – plant ysgol, eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau – gan ddiystyru'r genhedlaeth sydd yn y bwlch. Mae elfen o wirionedd yn hynny, felly os gallwch chi ein helpu i lenwi'r bwlch hwnnw, byddwn wrth ein bodd yn clywed gennych.


Felly, er mwyn sicrhau fod dyfodol i'r "Bigwn" dyma sydd ei angen:

- Yn bennaf, golygyddion newydd, ifanc neu brofiadol o bob cenhedlaeth!
- Cadeirydd newydd
- Aelodau newydd o'r Pwyllgor
- Cyfranwyr colofnau rheolaidd neu achlysurol ar unrhyw destun, e.e. coginio, garddio, cerddoriaeth poblogaidd, chwaraeon ayyb ...............

Os gallwch chi gynnig awgrymiadau neu eich gwasanaeth mewn unrhyw ffordd, gofynnwn y garedig i chi gysylltu â Sian Rogers ar siani77.sr@gmail.com neu 07871 499483 mor fuan â phosibl.

Fe'ch gwahoddir chi hefyd i gyfarfod cyhoeddus i drafod y mater yn Festri Capel y Fron ar nos Lun, Mehefin 12fed am 7.00 yh. **Ond os fydd ymateb ffafriol cyn hynny, efallai na fydd angen cynnal cyfarfod!**

John Davies (Cadeirydd dros dro)
Llifon Jones (Trysorydd)
Sian Rogers (Ysgrifennydd)




## Cymdeithas Caledfryn



Cynhaliwyd y Cinio Blynyddol yng Nghlwb Golff Dinbych a'r siaradwraig wadd oedd Yr Athro Elwen Evans K.C. Wrth ei chyflwyno dywedodd Richard, Ysgrifennydd y Gymdeithas mai fel Elwen Ty'n Llan y caiff ei hadnabod yn Llandyrnog a'r cyffiniau a bod pawb mor falch ac wedi dilyn ei gyrfa hynod lwyddiannus.
Wedi derbyn ei haddysg gynnar yn Ysgol Howells enillodd Ysgoloriaeth i astudio'r gyfraith yng Ngholeg Girton, Prifysgol Caergrawnt a chafodd ei derbyn i'r Bar yn Gray'sInn yn 1980. Yn 2002 cafodd ei hapwyntio yn Gwnsler y Frenhines. Mae wedi ymwneud ac achosion cyfreithiol difrifol, cymhleth a dwys ac roedd yn Bennaeth Siambrau Is-coed am oddeutu pymtheg mlynedd.
Ymunodd â Phrifysgol Abertawe yn 2015 ac yn 2020 apwyntiwyd yn Ddirprwy Is Ganghellor ac yn Ddeon Gweithredol ar gyfer Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol gyda chyfrifoldeb am bortffolio Iaith a Diwylliant Cymraeg y Brifysgol. Yn 2010 cafodd ei chynnwys ymhlith y deg uchaf ar restr dathlu cant o ferched mwyaf ysbrydoledig Cymru. Mae hefyd yn aelod o'r Orsedd.
Dechreuodd Elwen drwy arddangos y wisg bwrpasol gan gynnwys y penwisg/wig ar gyfer ymddangos yn Llys y Goron. Soniodd am ei magwraeth yn Llandyrnog a mynychu'r capel a'r ysgol Sul. Roedd ei hathro ysgol Sul yn ŵr arbennig iawn a phob amser yn gofyn i blant ei ddosbarth, "Beth ydy eich barn chi?". Cwestiwn mor bwysig ac mae wedi ceisio cofio hyn yn ei gwaith cyfreithiol sef sicrhau gwrando ar beth sydd gan pob tyst a diffynnydd i'w ddweud. Mae gallu cynnal achosion llys yn y Gymraeg yn rhoi balchder mawr iddi yn enwedig pan gellir sicrhau rheithgor llawn yn gallu'r iaith.
Rhoddodd amlinelliad o sawl achos y bu'n erlyn neu amddiffyn. Yn achos April Jones roedd hi'n gyfrifol am erlyn y diffynnydd Mark Bridger. Ar ôl i'r rheithgor ddyfarnu ei fod yn euog bu'n rhaid iddi ddarllen datganiad personol y fam cyn iddo gael ei ddedfrydu. Gorchwyl anodd ac emosiynol iawn ond yn ddim o'i gymharu a cholled y teulu bach o Fachynlleth.
Ar ôl achos anodd a chymhleth ac sydd wedi cael llawer o sylw ar y cyfryngau mae'n rhaid ceisio newid meddwl a cheisio ymlacio. Tasg anodd ond fel arfer byddai yn gweithio ar achos dyrys arall o fewn dyddiau. Y drefn ydy derbyn achos o ran pwy sy'n cysylltu gyntaf, naill ai erlyn neu amddiffyn-ni cheir dewis! Ar gyfartaledd mae wedi erlyn ac amddiffyn tua'r un canran o achosion.
Ers ymuno â Phrifysgol Abertawe mae Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton wedi bod yn arloesi ym maes addysg ac ymarfer y Gyfraith ac yn rhinwedd ei swydd mae wedi bod ddigon ffodus i gyfarfod Hillary Clinton ar sawl achlysur. Gwraig a gwleidydd galluog a sbesial iawn sydd ddim wedi derbyn y parch haeddiannol yn enwedig yn ystod cyfnod ei hymgais i ennill yr Etholiad Arlywyddol.
Diolchwyd i Elwen gan Alun, Llywydd y Gymdeithas am sgwrs arbennig ac hefyd am fod mor barod i ateb llu o gwestiynau. Diolchwyd i Richard am drefnu'r noson ac i ddiweddu cyflwynwyd blodau i Elwen gan Marged cyn i bawb gydganu 'Hen Wlad fy Nhadau'. Noson i'w chofio.

# HWB Dinbych






Beth sydd ymlaen yn HWB Dinbych?

**CaffiTrwsio Dinbych**

Mae HWB Dinbych - Canolfan Grŵp Cynefin - sy'n cynnig cyfleoedd addysg, gwaith a gwella llesiant yn Ninbych – yn mynd o nerth i nerth! Prif nod HWB Dinbych yw cynyddu'r cyfleoedd am hyfforddiant a gwaith yn lleol, ond mae llawer mwy yn mynd ymlaen yn yr HWB;

Unwaith y mis, mae criw o wirfoddolwyr yn dod at ei gilydd ar gyfer 'Caffi Trwsio HWB Dinbych'. Mae'r criw yn ysu i ddod trwy'r drws ar y trydydd Sadwrn o'r mis i weld pa eitemau sy'n barod iddynt eu taclo a'u trwsio!

Gallwch ddod o hyd i Gaffis Trwsio hyd a lled y wlad erbyn hyn – sesiynau sy'n rhoi cyfle i bobl yn y gymuned ddod ag eitemau sydd wedi torri i gael eu trwsio, a hynny am ddim! Rydym yn hynod o lwcus yn HWB Dinbych bod criw gwych yn gwirfoddoli eu hamser i'n galluogi ni i gynnal y caffi trwsio. Gallant drwsio amryw o bethau o feics, i offer trydanol, dillad, ac atgyweiriadau cyffredinol.

Un o'r pethau sy'n sefyll allan a gafodd ei drwsio oedd recordydd tâp a oedd yn dyddio yn ôl 1963. Bu i Gwilym, perchennog y recordydd tâp, ei ddefnyddio yn ôl yn 1972 i recordio ei blant bach yn canu. Ond atgofion yn unig oedd 'rhain – gan nad oedd y recordydd wedi gweithio ers bron i 50 mlynedd. Gallwch ddychmygu y tawelwch yn yr ystafell pan fu i Phil, un o'r criw trwsio, chwarae'r tap ar ôl trwsio'r recordydd! Roedd gwên Gwilym yn dweud y cyfan tra'n gwrando ar ei blant, sydd nawr yn eu 50au, yn canu yn blant bach!

Oes gennych chi eitem sydd eisiau ei thrwsio? Neu be am wirfoddoli eich amser fel un o'r criw trwsio? Dewch draw i HWB Dinbych ar y trydydd Sadwrn o bob mis rhwng 10am – 1pm. Croeso cynnes i bawb am baned a sgwrs , a gweld y crefftwyr ar waith hefyd!

**Beth arall sydd ymlaen yn HWB Dinbych?**

Grŵp Cerdded gyda Mind Dyffryn Clwyd
Dydd Iau 10 – 11:30am
Dechrau a gorffen yn HWB Dinbych – gyda phaned o de ar y diwedd!
Ymunwch â ni am daith gerdded o amgylch Dinbych.

**Clwb Gwaith**
Bob Dydd Iau – 10am – 2pm.
Gwirfoddoli | profiad gwaith | cyfleoedd hyfforddi neu eisiau dychwelyd i waith? Diweddaru'ch CV.
Cefnogaeth i ymgeisio am swyddi? Sgiliau cyfweld
Cysylltwch â ni i gymryd rhan yn y Clwb Swyddi.

**Croeso Cynnes**
Bob dydd - 9am - 3pm
Paned a tost am ddim!
Croeso Cynnes i bawb!
Am unrhyw ymholiad, cysylltwch â ni ar 01745 818 485 / elain.lloyd@hwbdinbych.org

| Cwrs | Dydd | Amser | Dyddiad Cychwyn |
|---|---|---|---|
| Gwella'ch Saesneg | Mercher | 09:30-12:30 | 19/04/2023 |
| Gwella'ch Mathemateg | Mercher | 13:30-15:30 | 19/04/2023 |
| Llesiant drwy Adeiladu Hyder | Mawrth | 09:30-12:00 | 18/04/2023 |
| Llesiant drwy Adeiladu Hyder | Mawrth | 13:00-15:30 | 18/04/2023 |
| Cyflwyniad I Sgiliau Digidol | Iau | 13:00-15:30 | 20/04/2023 |
| Sgiliau Swyddfa (Word, Taenlenni ac ati) | Mawrth | 13:00-15:30 | 18/04/2023 |
| Sgiliau Digidol – Sgiliau Bywyd | Iau | 09:30-12:00 | 20/04/2023 |
| Sgiliau Digidol Pellach | Mawrth | 09:30-12:00 | 18/04/2023 |
| Ipads | Gwener | 13:00-15:30 | 21/04/2023 |
| Printio Defnyddiau | Mercher | 13:00-15:30 | 19/04/2023 |
| Cyflwyniad I Ffyrdd Iach o Fyw | Llun | 09:30-12:00 | 17/04/2023 |
| Sgiliau Swyddfa (Word, Taenlenni ac ati) | Llun | 17:30-20:00 | 17/04/2023 |



## Aelwyd Capel Mawr

Cafwyd cyfarfod diddorol arall ym mis Ebrill. Ein siaradwraig oedd Gaenor Morgan Rees, a hi ddechreuodd y cyfarfod yn darllen cerdd i'r Gwanwyn. Roedd ei sgwrs yn ddifyr iawn, a daethom i wybod am fardd o Gwm Tawe drwy y ddawn mor arbennig sydd gan Gaenor. Bardd oedd Abiah Roderick o Glydach, ac roedd yn enwog am ysgrifennu adroddiadau doniol iawn. Fe gyhoeddodd llawer o lyfrau o'i waith, llawer ohonynt am Matilda a'i theulu. Cerddi digri iawn yn cael eu adrodd mewn eisteddfodau a chyngherddau gan lawer, mam Gaenor yn un ohonynt.

Roedd ei waith yn debyg i waith Richard Hughes, y Co Bach yn y gogledd. Darllenodd Gaenor rai o'i gerddi, ac roedd mor braf gwrando ar iaith a thafodiaith Cwm Tawe. Rydym mor lwcus o fod yn byw mewn gwlad mor arbennig a chyfoethog ei diwylliant.

Diolchodd y llywydd Rhiannon Wynne i Gaenor am ei sgwrs, ac i Carys a Dorothy am baratoi paned. Roedd y sgwrs o gwmpas y bwrdd yn werthfawr iawn. Criw bychan cartrefol ydan ni, ac fe fyddai croeso mawr i unrhyw un ddod atom

## Eglwys Unedig Fron a'r Brwcws

Bore Sul, Ebrill 2il, cawsom oedfa bendithiol iawn a'r cennad oedd Mr Glyn Williams, Llandudno a braf iawn oedd cael croesawu Mrs Williams atom hefyd. Mae ein diolch fel eglwys i ferched Mrs Aledwen Jones am eu rhodd i ni er cof am eu mam. Llongyfarchiadau i Gaynor a Mike Prew ar ddod yn nain a thaid i Evelyn Rose.

Ein gweinidog oedd yn arwain y gwasanaeth Bore Sul y Pasg yn y Capel Mawr. Nerys Ann Roberts estynnodd groeso i holl aelodau'r fro a'n gweinidog fu'n gweinyddu'r Sacrament Sanctaidd o Swper yr Arglwydd. Bore Sul, Ebrill 16eg, roedd gwasanaeth bedydd yn y Capel Mawr pryd wnaeth ein gweinidog, y Parch Andras Iago, fedyddio Gruff mab Steffan a Sian Jones, Llanelwy.

Yr ydym fel Eglwys y Fron yn cydymdeimlo gyda teulu y diweddar Mrs Megan Roberts, Cerrigydrudion. Yr oedd Megan a Ted Roberts yn aelodau ffyddlon iawn pan fu iddynt ddod i fyw i Abbey Court o Betws Gwerful Goch.

Cynhaliwyd noson gymdeithasol wedi ei threfnu gan Is-bwyllgor Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn y Fron eleni gyda Mrs Helena Jones, Rehoboth, yn llywyddu ac yn gyfrifol am y rhan ddefosiynol ac hefyd cyflwyno ein siaradwraig, Siwan Jones, Rhosllannerchrugog. Roedd Siwan yn llawn brwdfrydedd yn rhoi hanes ei gwaith fel Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cylch Wrecsam.Yr oedd cyfle ar derfyn y cyfarfod i gymdeithasu dros baned wedi ei pharatoi gan chwiorydd Eglwys Unedig y Fron a'r Brwcws a scons gan chwiorydd Capel Trefnant. Miss Morfudd Jones, Capel Bontuchel fu'n talu'r diolchiadau.

barddas

## Gŵyl Gerallt 2023

**Dathliad 500 mlynedd Eisteddfod Caerwys, penwythnos Tachwedd 24-26**

Eleni, mae'n 500 mlynedd ers i grefft y mesurau cynganeddol ('cerdd dafod') gael ei chydnabod a'i safoni yn Eisteddfod Caerwys 1523. Mae'n etifeddiaeth unigryw Gymreig, sy'n cael ei harfer heddiw mor fyw ag erioed, ac yn destun balchder cenedlaethol.

Bydd Barddas yn neilltuo digwyddiadau penwythnos Gŵyl Gerallt 2023 i ddathlu'r achlysur yng Nghaerwys a'r cyffiniau, bro'r Eisteddfod wreiddiol.

Clustnodwch y dyddiad 24 – 26 Tachwedd. Daw mwy o wybodaeth yn y man.

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA

01745 812835

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**

Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Ni neu Nhw

Roeddem ni'n arfer â meddwl bod rhywbeth yn perthyn i'r oes o'r blaen ynglŷn ag un athro yn ein hysgol ni drigain mlynedd yn ôl. Bellach rydwi'n credu bod yna elfen flaenllaw yn perthyn iddo.

Dach chi'n gweld, roedd o'n galw pob unigolyn yn **ni**.

" Dydan **ni** ddim wedi g'neud ein gwaith cartref," fyddai'i eiriau cyn taflu llyfr i gyfeiriad disgybl. " Detention i **ni** felly ar ôl yr ysgol ddydd Iau."

Fyddai o byth yn gofyn pam nad oedd y plentyn wedi g'neud y gwaith. Doedd methu â deall y gwaith ddim yn rhan o'i eirfa o, hyd yn oed pan oedd hynny yn ymwneud ag Algebra.

Y fo oedd yn gyfrifol am ddosbarthu llyfrau ysgrifennu newydd ar gyfer pob pwnc i holl ddisgyblion yr ysgol. A gwae chi os oeddech chi wedi tynnu tudalen neu ddwy o'ch hen lyfr. Fe fyddai o'n gwybod nad oedd y llyfr hwnnw yn gyflawn.

Ond rydwi'n crwydro oddi wrth fy nhestun – **y busnes ni yma**.

Bellach, wrth gwrs, y **nhw** sydd yn cael yr holl sylw gyda sawl disgybl ysgol neu fyfyriwr yn mynnu bod yr athro yn defnyddio'r gair a pheidio â chyfeirio at fechgyn a merched fel y cyfryw. Hyn oll oherwydd safbwyntiau ynglŷn â rhywedd.

Rwy'n siwr bod hyn yn achosi tipyn o drafferth i athrawon sydd wedi arfer â gosod merched yn ofalus yn drefnus yn nhrefn yr wyddor ar y gofrestr gyda'r bechgyn yn dilyn yn yr un drefn.

Ar hyd y blynyddoedd bu ysgolion yn cymharu canlyniadau arholiadau bechgyn a merched gan dd'eud bod bechgyn yn tangyflawni. Ydy hyn yn digwydd bellach?

Yn yr Alban y mae dadleuon ynglŷn â rhywedd wedi gosod llywodraeth y wlad honno mewn sefyllfa ddyrys a allai achosi cwymp sylweddol yn y gefnogaeth i'r Blaid Genedlaethol yn yr etholiad cyffredinol nesaf.

Rhaid imi gyfaddef nad ydw i'n llawn ddeall cymhlethdodau'r dadleuon hyn, ond fe wn i gall y busnes nhw 'ma achosi trafferth dybryd i blismyn yr iaith Gymraeg. Beth ddaw o'r treiglad meddal a'r treiglad llaes yn y fath sefyllfa?

Fe fydd sawl athro Cymraeg ar goll yn llwyr heb ei wersi drilio treigladau ac fe fydd p,t,c, b,d,g, ll, m + rh yn gorfod gweithio'n galetach.

Ond nid mater i'w gymryd yn ysgafn mo hwn. Rhaid cofio am y bobl ifainc hyn sydd mewn sefyllfa o argyfwng sy'n sicr o amharu ar iechyd meddwl a lles unigolyn, a dangos ein cydymdeimlad dwysaf er gwaethaf ein rhagfarnau hurt.

*Stan Lyall*



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru
DBP
DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Difyrion Digidol
# Deian ap Rhisiart

**Un o brif ddiddordebau ein teulu ni yw natur a bywyd gwyllt a chyda'r Gwanwyn bellach wedi cyrraedd, mae yna fwy o gyfle i fynd tu allan ac ymchwilio gyda apiau adnabod rhywogaethau natur efo'r plant boed wrth adnabod adar, coed neu bili-palod.** Un o'n nodau ni fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yw hybu defnydd o dechnoleg er budd llesiant a iechyd meddwl. Ac mi ydan ni fel siaradwyr Cymraeg yn ffodus iawn fod gennym wefan gynhwysfawr fel Llên Natur i gynorthwyo pobl o bob oed i chwilota a gwerthfawrogi byd natur. (https://www.llennatur.cymru/)

Beth sydd well i iechyd a llesiant ond llond ysgyfaint o awyr iach a gwerthfawrogi bywyd gwyllt ac mae Llên Natur yn adnodd fendigedig i ddatblygu'r diddordeb hwnnw.

Rwyf wedi sôn am Llên Natur o'r blaen yn fy ngholofnau blaenorol ond heb roi sylw fanwl iddi, ac mae yna gymaint i'w sôn. Mae'r wefan ei hun wedi'i rhannu yn wahanol adrannau – Y Tywyddiadur, y Bywiadur, yr Oriel, Pytiau fideo, Llyfrgell a Mapiau.

Gan droi at y Tywyddiadur yn gyntaf, mae'r Tywyddiadur yn gwbl rhyngweithiol, ac mae'n caniatáu i chi gofnodi a logio'r tywydd sy'n digwydd – mae posib defnyddio'r adnodd chwilio i weld y gwahanol digwyddiadau naturiol e.e. eira mawr neu stormydd eithafol (https://www.llennatur.cymru/Y-Tywyddiadur) fel y mae'r wefan yn egluro "mi allwch rhoi gwybodaeth i fewn iddo, neu chael gwybodaeth allan. Y cam cyntaf y byddwch yn cymryd wrth fentro ar y dudalen hon felly fydd dewis pa un rydych am ei wneud.... Chwilio ynteu Mewnbynnu (blychod chwilio ar y chwith mewn glas, blychod mewnbynnu ar y dde mewn coch)."

Pan ydych yn ansicr o'r enw Cymraeg am rywogaeth arbennig, mae'r Bywiadur yn ganllaw digidol angenrheidiol. "Trysorfa o wybodaeth am y gwahanol fathau o anifeiliaid a phlanhigion yw'r Bywiadur (https://www.llennatur.cymru/Y-Bywiadur) . Mae'n eiriadur rhywogaethau ond yn ogystal cewch hefyd holi'r Bywiadur am enw Cymraeg, Saesneg neu Ladin am unrhyw anifail neu blanhigyn o'r grwpiau mwyaf adnabyddus yng ngwledydd Prydain." Felly, yn ddelfrydol i'r cyw naturiaethwyr yn ein plith. Er enghraifft os y rhown ' Gylfinir' yn y chwiliwr, nid yn unig ceir yr enw Saesneg, Cymraeg a Lladin, ond maent yn cynnwys yr enwau tafodieithol hefyd e.e.

**Gylfinir** - *cornicyll y waun [gweler lapwing]*, *Giarliw*, *chwibanogl y mynydd*, *cwrlig*, *cwrlip*, *chwibanwr*, *glifinir fawr (sir fôn)*………………………

*Numenius arquata*, Curlew.

Mae adran yr Oriel sy'n cynnwys lluniau o bob math sydd wedi eu dewis gan y cyfranwyr am eu diddordeb amgylcheddol arbennig. Yr hyn sydd yn gwneud yr Oriel yn wahanol i gasgliadau eraill o luniau yw'r capsiynau y mae'r cyfranwyr yn eu hychwanegu. Gall y capsiwn gynnwys dyddiad a lleoliad y tynnwyd y llun.


Mae yna hefyd bytiau fideo difyr tu hwnt sydd wedi eu llwytho ar safle YouTube Llên Natur www.youtube.com/user/Llennatur sy'n cynnwys cofnodion fideo defnyddwyr yn cynnwys clip o Walch glas yn gwledda ar ddrudwy.

Mae yna hefyd adran Llais sy'n gronfa o sgyrsiau byr "hanes llafar", yn ymdrin â rhyw agwedd ar fyd natur neu'r amgylchedd o fewn profiad personol y sawl sydd yn cael ei gyfweld/chyfweld. https://www.llennatur.cymru/Llais . Mae'r adran fapiau yn storfa arall wych o wybodaeth a'i phwrpas yw cyflwyno gwybodaeth sy'n seiliedig ar leoliad gan geisio amlygu patrymau na fuasent yn amlwg heb eu rhoi ar fap. Cofiwch hefyd ymaelodi â'r gymuned ar Facebook i gofnodi unrhyw arsylwadau ym myd natur, neu i fwynhau a dysgu gan gyfranwyr eraill. https://www.facebook.com/groups/CymunedLlenNatur/

Mae yna lond gwlad o gynnwys ar y wefan hon i'ch cadw'n brysur am ddyddiau. Ewch ati i bori drwyddi! Mwynhewch!

Os ydych angen datrys problem ddigidol neu'n chwilio am hyfforddiant mewn sgiliau digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop


Glyn Evans Autoclinic Ltd
Atgyweirio ceir ~ Accident repairs



Colomendy Industrial Estate, Dinbych LL16 5TA
Tel : (01745) 815141 repairs@evansautoclinic.com



Cynghorwyr Sir Ddinbych
Eich Cynghorwyr Plaid Cymru



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle
wê y Cyngor Sir

## Hel atgofion mewn arddangosfa treftadaeth

*lluniau ar dudalen 2*

Cymrodd Menter Iaith Sir Ddinbych ran mewn arddangosfa treftadaeth ddydd Mawrth 28 o Fawrth.
Mewn digwyddiad ar safle hanesyddol Carchar Rhuthun, daeth nifer o sefydliadau treftadaeth y gogledd ddwyrain ynghyd gyda'u harddangosfeydd er mwyn cefnogi digwyddiad a drefnwyd gan Fforwm Treftadaeth gogledd ddwyrain Cymru.
Daeth yr arddangosfa a'r cyfle i'r Fenter Iaith ddwyn sylw at adnodd arbennig Amgueddfa Atgofion. Dyma brosiect a gefnogwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol rhai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn, i rhoi sylw i fywyd ffermio a chefn gwlad yn Sir Ddinbych. Roedd eu harddangosfa yn gyfle i rannu lluniau a hanesion rhai o genedlaethau hŷn y gymdeithas gan gasglu atgofion am y dulliau traddodiadol o ffermio a siapiodd ein cymunedau gwledig heddiw. Trwy ddefnydd o dechnoleg roedd modd i ymwelwyr wylio a gwrando ar straeonllafar gan roi platfform ychwanegol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg hefyd.
Yn ôl Iorwen Jones, Menter Iaith Sir Ddinbych: "Mae gan bobl ddiddordeb mawr ym mhob elfen o'r ffermio, ac mae canmoliaeth fawr wedi bod i'r prosiect. Rydym yn falch bod yr adnoddau a ddatblygwyd trwy'r prosiect yn parhau i gael eu defnyddio gyda llawer o'r ymwelwyr eisiau gweld mwy o arddangosfeydd o'r fath. Roedd yn gyfle arbennig i rannu hen hanes ffermio, pwnc sy'n digwydd bod yn agos at fy nghalon innau hefyd."
Mae'r adnoddau ar gael i ysgolion neu gymdeithasau eu benthyg trwy drefniant â'r Fenter Iaith.
*Gwenno Williams, Gwirfoddolwr, Menter Iaith Sir Ddinbych Pasg 2023*


/gwasg.com PRINT

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO


Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 · info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint


## Dyma rai o lwyddiannau ysgolion Dinbych yn Eisteddfod Sir yr Urdd

Urdd

Llongyfarchiadau iddynt i gyd a phob lwc i'r rhai fydd yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol

Llefaru Unigol Bl.5 a 6
 1af – Mati Nel Williams (Ysgol Twm o'r Nant)
Grwp Llefaru Bl.6 ac iau
 af – Ysgol Twm o'r Nant
Llefaru Unigol Bl.3 a 4 (D)
 3ydd – Tallie Lloyd (Ysgol Frongoch)
Parti Deulais Bl.6 ac iau (Y.C./Adran)
 2il – Parti Twm o'r Nant
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)
 2il – Ralph Thomas (Ysgol Baratoi Coleg Myddelton)
Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4
 3ydd – Elen Ellis (Ysgol Twm o'r Nant)
Llefaru Unigol Bl.2 ac iau
 1af. Leusa Williams (Ysgol Twm o'r Nant)
Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6
 3ydd – Martha Roberts (Ysgol Twm o'r Nant)
Cor Bl.6 ac iau (ysg. dros 150)
 2il – Cor Ysgol Twm o'r Nant



## Y Sŵn a’r bwrlwm yn rhoi ffocws i wirfoddolwyr y Clwb Ffilmiau


(adolygiad o ffilm Y Sŵn, gan Ffion Clwyd Edwards, Groes)

Hir yw pob ymaros, yn ôl y sôn, ac i ni fel Cymry, rydyn ni wedi gorfod aros yn hir am hon... y ffilm Gymraeg gyntaf ers oes aur ffilmiau Cymraeg yr 80au, ‘Y Sŵn,’ gan Roger Williams wedi ei chyfarwyddo gan Lee Haven Jones

I ni yn Ninbych, cawsom y fraint o’i gwylio ar ein stepen drws yn ein theatr gymunedol, Theatr Twm o’r Nant. Mi oedd hi’n dipyn o sgŵp ei chael hi yma, wrth i ni gystadlu â’r theatrau mawrion ym Manceinion, Llundain, Lerpwl a Chaeredin heb sôn am theatrau eraill Cymru sydd hefyd wedi cael y fraint o’i chyflwyno am y tro cyntaf i gynulleidfaoedd eu milltir sgwâr.

“Mae gennym ni berl yn Ninbych,” eglura Ruth Williams, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych. “Mae gennym ni, nid yn unig ofod cymunedol o safon yn y dref, ond yn fwy na hynny, yr awydd a’r brwdfrydedd gan griw o wirfoddolwyr Theatr Twm o’r Nant a Chlwb Ffilmiau Dinbych i redeg y Clwb Ffilmiau misol yma.

“Eu gweledigaeth nhw, fel criw gweithgar lleol sydd wedi sicrhau bod cyfle i ni fod mewn cwmni da yn Theatr Twm o’r Nant wrth rannu’r ffilm newydd sbon danlli yma, ‘Y Sŵn,’ gyda chynulleidfa o Ddyffryn Clwyd. Ac mi roedd yn dipyn o egsgliwsif, gan mai Sul y Pasg roedd gweddill y genedl yn ei gweld hi am y tro cyntaf ar y sgrin fach, ar S4C!”




Gwyneth, Gaynor a Tim yn brysur yn derbyn y tocynnau wrth y drws.

Ers ail gydio yn y Clwb Ffilmiau wedi’r pandemig, mae’r clwb yn mynd o nerth i nerth, a bellach wedi cau’r llyfrau ar gofrestru aelodau newydd, oherwydd y poblogrwydd.

“Mae cyfle i bobl sydd ddim yn aelodau fynychu’r ffilmiau, ac maen nhw’n




TE YN Y GRUG

Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

PyBj



GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â’ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

MEIRION DAVIES A’I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
‘Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch’
John Glyn Jones

nosweithiau poblogaidd iawn, yma," meddai Edwina Stephen un o'r criw gwirfoddolwyr.
"Mae'n braf iawn gallu tynnu pobl ynghyd i wylio ffilmiau o bob math ar eu stepen drws, yma yn Ninbych.
"Rydyn n i'n ddiolchgar iawn i Fenter Iaith Sir Ddinbych, sydd mor barod i'n cefnogi drwy gynorthwyo i hyrwyddo ein ffilmiau Cymraeg a Chymreig. Mae ganddyn nhw'r rhwydweithiau i gyrraedd at bobl yn ddigidol a chyda'i dilynwyr nhw, maen nhw'n ein helpu i gynnig arlwy Gymraeg o safon i'n cynulleidfa graidd."
Cynhyrchiad ar y cyd rhwng S4C a chwmni Joio yw Y Sŵn sy'n rhannu hanes ein cenedl ar droad 1980au. Dyma gyfnod y frwydr fawr i sicrhau tegwch i'r Gymraeg, platfform i'r iaith yn natblygiad darlledu a sefydlu'r Gymraeg fel iaith o werth, yn wyneb heriau Thatcheriaeth Llundeinig unllygeidiog.

Ond da chi, peidiwch â meddwl mai ffilm sych hanesyddol draddodiadol yw hon. Mae'n fwrlwm o'r theatr, yn lliwgar a byrlymus ac yn gyfoes iawn ei gwedd. O'r gwisgoedd a'r prosthetics, yr acenion a'r cymeriadu, mae llif y stori'n cael ei uchafu trwy'r defnydd o benawdau graffeg cyfoes rhwng golygfeydd sy'n sicr o apelio at y to iau a'i byd Instagramaidd.
I mi, y cymeriadu fu'r campwaith ac mae cyfran o'r clod hwnnw angen mynd i'r meistri gwisgoedd a cholur. Na, doedd dim pwyslais o du'r cyfarwyddwr i greu dynwarediadau clos o'r cymeriadau hanesyddol, yn ôl Daniel Lloyd, a gymrodd ran mewn sesiwn holi ac ateb, wedi'r perfformiad yn Twm o'r Nant. Ond yn hytrach, creu portreadau argraffiadol ohonynt. Ac mi lwyddodd bron i bob un actor Cymreig y campwaith honno.
Braf oedd clywed o lygad y ffynnon, gan Daniel, fu'n cymeriadu'r bythol annwyl Merêd a Steffan Wilson Jones, cyw actor gynhyrchydd o Rhuthun, fu'n bwrw ei brentisiaeth ar Y Sŵn. Fel Cynorthwyydd Cynhyrchu i gwmni Joio, roedd hi'n braf gweld Steff, un o blant Theatr Ieuenctid Dyffryn Clwyd fy nghyfnod i a'r diweddar Eirwyn Evans, yn parhau yn y byd celfyddydol. Mi ychwanegodd y sesiwn ddyfnder pellach i'r ffilm i ni gynulleidfa ffodus Dinbych.
Gwefr arall y ffilm oedd y traciau sain a ychwanegodd at awyrgylch a naws y naratif, gyda gwaith ymchwil fanwl a dealltwriaeth gaboledig o gerddoriaeth gyfoes Gymraeg a sicrhaodd bod bob trac yn gweddu i olygfa neu gyfnod.
I mi, fel plentyn yr wythdegau, roedd y ffilm yn dwyn i gof gyfnodau o fy magwraeth ar aelwyd amaethyddol Gymraeg yn Nyffryn Conwy. Wrth gwrs â mam yn genedlaetholwraig frwd, yn weithgar gyda'r Blaid ac enw Dafydd Êl, fel hen ewythr caredig ar ein haelwyd, roedd arlliw o'r stori a'r cyfnod wedi serio yng nghrombil fy isymwybod.
Er gwaethaf hyn, fel un na chafodd Hanes Cymru fel rhan o'r cwricwlwm addysgol yn yr ysgol, mae hon yn ffilm sy'n gosod y manylion, yn addysgu'r genhedlaeth nesaf o'i draddodiad ac yn bendant yn dangos yr aberth a wnaed gan gynifer dros ein sianel Gymraeg, ein hiaith a'n diwylliant.
Roedd heriau enfawr yn wynebu Gwynfor Evans, y werin bobl, Cymdeithas yr Iaith a Phlaid Cymru yn ystod y cyfnod. Heriau sydd, er gwaethaf 40 mlynedd, yn parhau i'n hwynebu ni heddiw.
Ond, dyma ffilm sy'n gosod y seilwaith, yn cofnodi'r aberth, ac yn atgoffa'r giwed o blant a phobl ifanc heddiw bod rhaid parhau i frwydro ac yn bwysicach fyth i werthfawrogi'r cyfan a wnaed. A'r ffordd bwysicaf o wneud hynny yw defnyddio'r iaith ym mhob twll a chornel o'n bywydau brau digidol dechnolegol.
Ddarllenwyr brwd, anogwch y genhedlaeth nesaf i droi at ein sianel Gymraeg, S4C, i wylio, Y Sŵn. Mae ar gael ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill gydag is-deitlau Cymraeg neu Saesneg.
Llongyfarchiadau enfawr i'r cast, y criw cynhyrchu, i S4C a Joio am roi dechrau rhagorol i ail don o ffilmiau Cymraeg ein dyfodol, gobeithio!

## Dyddiadur

**Pnawn Mercher Mai 8fed am 1.30 o'r gloch,**
Clwb Ffilmiau Dinbych, Theatr Twm o'r Nant
Mynediad AM DIM. "Only Two Can Play" (1962)
Peter Sellers fel llyfrgellydd rhwystredig yn Abertawe mewn trafferthion priodasol!! Comedi.
**Dydd Sadwrn Mai 20 FFAIR CAPEL PENDREF**
yn Eirianfa 10 -11 o'r gloch
**Dydd Mercher Mehefin 14eg**
Ymweliad â'r Ysgwrn £10 y pen
Am fwy o fanylion cysylltwch â Nerys Ann
01745 814950 Croeso i bawb.







Rob Stephen, Andy McMorine a Gwyn Evans gwirfoddolwyr y Clwb Ffilmiau

# Llyfrgell Dinbych

**Llyfr newydd i blant**







'Roedd llyfrgell y plant yn llawn bwrlwm yn ystod gwyliau'r Pasg gyda nifer fawr o blant yr ardal yn mynychu ein sesiynau galw mewn i wneud Crefftau'r Pasg. Cawsant hefyd gyfle i wneud ein Helfa Pasg a chael gwobr fach ar y diwedd. Mae'r staff bob amser yn hoffi gweld y plant yn mwynhau yn y Llyfrgell ac rydym yn barod yn edrych ymlaen at Sialens Ddarllen yr Haf - mwy o wybodaeth yn ystod y misoedd nesaf.






Sut i gysylltu â ni: Ar-lein www.sirddinbych.gov.uk/llyfrgelloedd
I e-bostio: llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk
Ffôn: 01745 816313
Edrychwch ar y dudalen we am ein horiau agor

sir ddinbych denbighshire
CYMRAEG
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanacth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

| | |
|---|---|
| Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, | Plas Tirion, Kinmel Avenue, |
| Dinbych, LL16 4RH | Abergele, LL22 7LW |
| Ffôn: 01745 812935 | Ffôn: 01745 827777 |
| Ffacs : 01745 817303 | Ffacs : 01745 827750 |
| E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com | E: rwroberts.abergele@gmail.com |

www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
NATIONAL SAIF INDEPENDENT FUNERAL DIRECTORS

# Noson Cryfder mewn Comedi - Nerth dy Ben



Cryfder Mewn Comedi - Y Soffa Drafod

Nid yn aml y bydd y gŵr yn awgrymu ein bod ni'n mynd am noson allan i rhywle. Peidiwch â ngham ddeall i, mae o'n mwynhau noson allan cystal â finna. Ond fel arfer, y FI fydd yn annog ac yn trefnu. Felly pan soniodd y byddai'n syniad cael tocynnau i 'Noson Cryfder mewn Comedi' - Nerth dy Ben, dyma holi Siop Clwyd ar unwaith am rai. Ond och! Y siom! Dim un ar ôl. Trio Elfair wedyn a chael addewid y bydden nhw'n cadw dau i mi…a doedd dim ond chwe thocyn yn weddill yno! Roedd y rhain fel aur!

Pan fo'r si yn mynd ar led fod tocynnau'n brin, a bod yna restrau aros hirach na rhai'r Gwasanaeth Iechyd am docyn sbâr, mae'r disgwyliadau am noson dda yn codi'n sylweddol. Tipyn o bwysau ar y trefnwyr cyn cychwyn felly i fodloni'r gynulleidfa awchus! Ond beth yn union oedden ni yn ei ddisgwyl? Doedd neb yn siŵr iawn. Roedd y tocyn yn dweud "Noson Cryfder mewn Comedi" - siawns am ddigon o chwerthin felly! Ond ai 'stand yp' fyddai yno? Neu seiat holi efallai? Neu 'chydig o sgetsus?? Yn sicr roedd yr enwau ar y tocyn yn meddu ar y doniau i wneud y pethau hyn i gyd - Sian Parry, Eryl Davies, Dilwyn Pierce, John Bryn Hen, Tudur Owen…a neb llai na'r Barnwr, Nic Parry i gadw trefn ar y cyfan. Dyna i chi arlwy!

Pan ddaeth hi'n nos Iau Dyrchafael, roedd y fro i gyd yn heidio am Neuadd y Dref Dinbych. Yn ôl ein traddodiad ni'n dau, roedd hi'n ben set arnon ni'n cyrraedd a'r Neuadd dan ei sang yn barod - rhai ifanc a rhai dipyn yn hŷn - a'r awyrgylch yn gynnes braf. Roedd ciwio a sgwrsio tua'r bar, a'r rhai trefnus wedi cyrraedd yn gynnar i sicrhau bwrdd a lle cyfleus (os nad peryglus!) yn y blaen. Am y galeri aethon ni a setlo ein hunain yn y rhes flaen yn barod am y sioe.

Teg dweud na chawson ni ein siomi. Ar ôl gwrando ar anthem Nerth dy Ben a gwylio'r artistiaid yn ei pherfformio ar y sgriniau mawr a ddarparwyd, dyma gerddoriaeth wahanol, ac awyrgylch disgo bywiog yn llenwi'r Neuadd. Ac o ochrau'r llenni, wele gymeriad lliwgar yn ymddangos yn ei siaced binc llachar! Hwn oedd y galwr bingo o Gilgwri â'i acen sgows fendigedig. Ond er mawr syndod i ni, roedd o hefyd yn rhugl yn ei Gymraeg a chawsom ar ddeall fod ei Daid yn dod o Gymru ac wedi dysgu iaith y nefoedd iddo!! Mi fedra i ddweud fod yna beth panig o'n cwmpas, a chwilota mewn handbags am feiro neu bensil neu rywbeth er mwyn bod yn rhan o'r 'Bongo Bingo' arfaethedig. Ond roeddwn i'n amau'n gryf fod acen ffermwr llaeth o Gefn Meiriadog yn cuddio tu ôl i'r siaced binc a'r acen Sgows a, diolch byth, fu dim rhaid i neb weiddi "TŶ" dros y Neuadd na chasglu gwobr o'r llwyfan. Dyma oedd y cychwyniad hwyliog i noson oedd yn cynnig llond bol o chwerthin, ac ambell beth i gnoi cil arno.

Panel gafwyd wedyn, a Nic Parry'n holi Sian, Eryl a Dilwyn am eu profiadau nhw ar lwyfan yn creu chwerthin a difyrrwch dros y blynyddoedd. Mudiad y Ffermwyr Ifanc oedd man cychwyn pob un ohonynt ac roedd hi'n ddifyr eu clywed nhw'n hel atgofion ac yn dweud mor ddyledus oedden nhw i rai fel Gwilym Morris, Llechryd a Bryn Williams, Plas Uchaf am annog a hybu'r hwyl yn lleol.

Profiad braf i'r gynulleidfa wedyn oedd cyd-wylio 'Sgets y Bocsio' ar y sgrin fawr. Dwi wedi ei gweld hi droeon, ond erioed ar deledu enfawr yn Neuadd y Dref hefo hanner y fro yn gwmni i mi. Mae hi'n dal i greu chwerthin diniwed o waelod y bol, yr un fath â chwerthin heintus y gynulleidfa wreiddiol honno yn y Noson Lawen sawl blwyddyn yn ôl. Beth sydd wedi digwydd i'r hwyl diniwed hwnnw tybed? Ydy archwaeth gomedi'r wlad wedi newid, neu wedi esblygu dros y blynyddoedd? Bu'r panelwyr yn trin a thrafod hyn. Mae'n bwnc diddorol, ond yr hyn sy'n sicr ydy ein bod ni gyd yn dal i fwynhau dos iawn o chwerthin weithiau, ac mae hynny'n lles i'r enaid. Yr hyn dydyn ni ddim yn ei ystyried efallai, ydy sut brofiad ydy hi i'r digrifwyr sy'n tanio'r hwyl hwnnw. Gawson ni gipolwg ar y chwysu a'r gwaith caled sydd y tu ôl i'r jôcs a'r hiwmor - a hanes sawl tro trwstan ac ambell noson ddigwsg yn dilyn perfformiadau.

Tudur Owen oedd y gwestai olaf i ymuno â'r criw ar y soffa drafod. Roedd o'n gartrefol iawn ymysg ein criw doniol, lleol ni ac yn rhannu profiadau â nhw am ei yrfa yntau'n codi gwên. Datgelwyd mai Tudur Owen oedd y gweithiwr cefn llwyfan di-nod fu'n tendio a gwneud te i Dilwyn Pierce cyn iddo fo ymddangos ar y Noson Lawen sawl blwyddyn yn ôl! Ffaith yr oedd Dil yn amlwg yn ymhyfrydu ynddi, ac awgrym o dipyn o dynnu coes iach rhwng y ddau.

Mae fy niolch yn fawr i'r gŵr am awgrymu mod i'n cael tocynnau ar gyfer y noson arbennig hon - roedd hi'n sicr yn werth y ras i siop Elfair cyn cau, ac ar ôl yr holl ddyfalu beth fyddai trefn y noson, gallaf ddweud ei bod hi'n gyfuniad perffaith o sgwrs a sgets; yn noson i'n hatgoffa ni o werth chwerthin, ac o les cael noson lawen. Prun ai ydy o'n digwydd mewn cwmni bach o ffrindiau'n dod at ei gilydd, neu yn ddigwyddiad mawr a llond neuadd o bobl yn rhannu hwyl, does yna ddim ffisig gwell na chwerthin.

*Ffion Williams (Diolch i Nerth dy Ben am drefnu i ni gael copi ag I Leah Meirion am y lluniau)*

Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

# Ysgol Glan Clwyd

**Eisteddfod yr Urdd**
Ar ddiwedd y cyfnod cystadlu rhanbarthol ar gyfer ennill lle yn y genedlaethol, dathlwn unwaith eto eleni lwyddiant ein disgyblion yn Eisteddfod Sir yr Urdd, gan gynnal y traddodiad o berfformio sy'n rhan annatod o hanes Ysgol Glan Clwyd.
Dyma'r canlyniadau a dymunwn y gorau i'r rhai a enillodd y wobr gyntaf wrth iddynt gynrychioli'r sir yn yr Eisteddfod Genedlaethol sydd i'w chynnal eleni yn Llanymddyfri. Pob lwc i chi!
Unawd Telyn Bl.7-9 1af - Hawys Owen-Casey, 2il - Nansi Jones
Unawd Merched Bl.7-9 1af - Hawys Owen-Casey
Llefaru Unigol Bl.7-9 1af - Hawys Owen-Casey
Llefaru Unigol Bl.7-9 (Dysgwyr) 1af - Thomas Meaden
Deuawd Bl.7-9 1af - Nansi a Nel Jones
Deuawd Cerdd Dant Bl.7-9 2il - Nansi a Nel Jones
Perfformiad Theatrig Unigol Bl.7-9 1af - Alys Wyn Jones
Perfformid Theatrig Unigol o Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed 3ydd - Eveline Clubley
Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.7-9 1af - Lena, Alaw, Miriam a Hawys
Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.7-9 (Dysgwyr) 1af - Thomas M, Ryan, Ella a Ffion



Nel Jones, bl8 a'i chadair CA3



Hana davies, enillydd cadair CA4

**Eisteddfod Ysgol**
Cafwyd diwrnod cofiadwy o ddathlu ein diwylliant yn ein Eisteddfod Ysgol a braf oedd estyn croeso yn ôl atom i ddau a fu ar y tîm staff tan yn ddiweddar sef Mr John Evans a Mrs Sian Alwena Jones.
Roedd yr arlwy yn un amrywiol tu hwnt gyda'r disgyblion wrth eu boddau! Ymhlith y cystadlaethau roedd cystadleuaeth stori a sain, meim, dangos dy dalent, creu llun o sgwigl a chystadleuaeth limbo. Cadwyd yr elfennau mwy traddodiadol hefyd megis unawd, unawd offerynnol a chôr llys ond yr uchafbwynt, heb os, oedd y seremoni cadeirio; cystadleuaeth a feirniadwyd gan y bardd Osian Owen o'r Felinheli. Llongyfarchiadau mawr i Hana Davies, bl11 ar ennill cadair CA4 a 5, ac i Nel Jones, bl8 ar ennill cadair CA3. Ymfalchïwn yn llwyddiant y ddwy a gwych gweld eu hawen greadigol ar waith.

**Dathliadau Gwyl Dewi - Bwncath**
Roedd awyrgylch trydanol yn yr Hafan wrth i'r ysgol ddathlu Gwyl Dewi a mwynhau perfformiad gan un o fandiau mwyaf enwog Cymru sef Bwncath. Bu caneuon gan y band yn rhan o ddewis *trac yr wythnos* yn ystod y flwyddyn, digwyddiad a gynhelir bob bore Gwener yn yr ysgol er mwyn rhoi blas o ganeuon Cymraeg o'r sîn roc cyfoes i'n disgyblion. Roedd pawb wrth eu boddau felly gyda'r perfformiad byw o ganeuon cyfarwydd y band.




**Ymweliad diwylliedig y Criw 6ed â lleoliad *Un Nos Ola Leuad***

Bu disgyblion Cymraeg blwyddyn 13 yn ffodus iawn o gael eu tywys ar daith ddiwylliedig o amgylch Bethesda gan y Prifardd Ieuan Wyn yn ddiweddar er mwyn dod â'r nofel Un Nos Ola Leuad yn fyw. Mae'r disgyblion wedi cael modd i fyw yn astudio'r nofel ac roedd cael ymweld â'r lleoliadau go iawn yn brofiad gwerthfawr tu hwnt iddynt. Diolch i Ieuan Wyn ac i Adran y Gymraeg Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu.
Ar ôl swper ymunwyd â disgyblion bl.12 a chriw Drama TGAU i wylio perfformiad gwefreiddiol o'r ddrama *Pijin* gan Alys Conran a gynhyrchwyd gan Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr Iolo ym Mhontio, Bangor. Mae'r ddrama yn dilyn stori bachgen ifanc o'r enw Pijin a'i hynt a helyntion wrth dyfu fyny. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'n arw!

**Taith i'r brifddinas**
Cafodd disgyblion blwyddyn 9 dridiau arbennig wrth ymweld â'n prifddinas ac aros yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Cafwyd brofi diwydiant y pyllau glo wrth ymweld â Big Pit, y Stadiwm Principality, Sain Ffagan a'r Senedd. Un o'r uchafbwyntiau oedd taith mewn cwch cyflym yny bae.

**Cerdd a Drama**
Roedd disgyblion hŷn yr ysgol sy'n astudio Cerdd a Drama ar gyfer TGAU a Lefel A wedi cael cyfle i fynd i Theatr Clwyd yr wythnos hon i wylio'r sioe gerdd 'Heathers'. Roedd pawb wedi mwynhau'n arw!

Cafwyd cyfnod prysur iawn yn yr adran yn ddiweddar gydag asesiadau ymarferol TGAU ac Uwch Gyfrannol i'r criw Drama ac asesiadau perfformio Lefel A i'r criw Cerdd. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd am berfformiadau arbennig!



**Ymweliad dwy awdures - Rebecca Roberts a Bethan Gwanas**

Cafodd rhai o ddisgyblion Bl9 gyfle i groesawu ymwelydd arbennig i'w gwersi Cymraeg yn ddiweddar. Mae Rebecca Roberts yn awdures lwyddiannus iawn o'r ardal ac yn gyn-ddisgybl. Mae'r disgyblion wedi bod yn darllen ei nofel #Helynt yn eu gwersi ac wedi mwynhau yn fawr. Cafodd y disgyblion gyfle i holi cwestiynau am ei phrofiadau fel awdures ac am y nofel. Roedd pawb wedi gwirioni wrth glywed am ddilyniant i'r nofel sef #Mwyohelynt sydd ar ei ffordd yn fuan! Diolch Rebecca am ddod â'r nofel yn fyw i'n disgyblion, rydym yn edrych ymlaen at gael clywed am hynt a helynt Rachel yn y nofel nesaf.

Ac fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr, daeth Bethan Gwanas at dri grwp o ddisgyblion o flwyddyn 7-9 i rannu ei phrofiad fel awdures. Diolch iddi hithau am ei hamser.









**Clwb Natur** Mae'r clwb natur wedi bod yn brysur yn casglu poteli plastig i greu planwyr wedi'u hailgylchu ar gyfer prosiect yr ardd fechan. Buont yn dangos eu creadigrwydd gan greu gwahanol ddyluniadau ar gyfer y planwyr fertigol. Mae'r clwb yn edrych ymlaen at blannu hadau a blodau i ddenu peillwyr ac i newid y gofod i fod yn ofod tawel a






**Camp Rygbi D16**

Llongyfarchiadau enfawr i fechgyn ar ennill twrnament rygbi yn erbyn ysgolion uwchradd y gogledd a chipio Cwpan Ysgolion Gogledd Cymru. Tipyn o fuddugoliaeth oedd yn dangos fod y chwarae caled wedi talu'i ffordd! Go dda chi!

**Grwp 23%**

Cafodd criw o flwyddyn 10 fynd i Brifysgol Bangor i fod yn rhan o weithdy dysgu trwy brofiad i ddarpar arweinwyr.

**Pleser Pêlrwyd**

Cafodd criw o flwyddyn 7 amser cofiadwy yn chwarae mewn twrnament pêl-rwyd yn Ysgol Uwchradd Rhyl.




Llongyfarchiadau mawr hefyd i Abi Filmer o flwyddyn 10 sydd wedi bod yn gweithio ar gwblhau nifer o fodiwlau Open Learn. Rhaid canmol Abi am ei pharodrwydd a'i phenderfyniad i gwblhau'r modiwlau dysgu o bell yma er mwyn ehangu ei dealltwriaeth o bynciau ac astudio yn y brifysgol.

**Seren Sylfaen**

Aeth 24 o ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 ar daith i Amgueddfa Morwrol Lerpwl ar gyfer cyflwyniad gan Goleg Magdalene, Caergrawnt. Braf oedd gweld un o'n cyn ddisgyblion yno, Elin Evans, yn trafod ei phrofiadau hi yng Nghaergrawnt.

## Ysgol Twm o’r Nant

**Rydan ni yn ôl yn yr ysgol wedi gwyliau’r Pasg a phawb wedi cael llond eu boliau o siocled erbyn hyn! Mae themâu newydd gan pob uned a phawb yn edrych ymlaen at brysurdeb tymor yr haf.**

Dymunwn yn dda i Mrs Enfys Jones a fydd yn ein gadael ni am gyfnod i gael babi. Edrychwn ymlaen at gael clywed y newyddion arbennig pan ddaw’r babi bach.

**Uned dan 5 = Mae pawb yn edrych ymlaen at ei thema newydd y tymor yma sef 'Y Jyngl'. Rydym wedi mwynhau darllen y storiâu 'Dwndwr yn y Jyngl' a 'Y Teigr a ddaeth i de'.**











Cafodd y plant gyfle i baentio llun o'i hoff anifail jyngl, chreu jyngl yn yr ardal does, archwilio patrymau anifeiliaid y jyngl.

**Uned dan 7**

Mae plant yr Uned wedi dychwelyd yn nôl i'r ysgol yn hapus ar ôl seibiant haeddiannol y gwyliau Pasg ac yn barod am hanner tymor prysur arall o waith. Ein thema yw 'Yn yr Ardd' a mae'r plant wedi bod yn chwilfrydig iawn yn ystod yr wythnos cyntaf yn cynllunio gweithgareddau a meddwl am gwestiynau i'w hateb ynghlwm â’r thema newydd. Mae'r plant wedi cyffroi gyda'n ffrindiau newydd yn y dosbarth ac yn edrych ymlaen i weld y lindys yn tyfu a dysgu mwy am gylch bywyd y pili pala. Rydym yn mawr obeithio am dywydd gwell y Gwanwyn er mwyn i ni allu ddatblygu ein gardd yn yr ardal tu allan hefyd.





Bu'r plant yn arbrofi gyda chuddliw yn yr ardal tu allan drwy baentio wynebau a chuddio. Am hwyl!





**Uned dan 9**

Rydan ni yn mynd yn ôl ymhell mewn hanes gyda ein thema y hanner tymor yma i oes y Celtiaid.
Mae'r plant ar hyn o bryd yn dysgu am y bryngaerau sydd yn rhan hynafol o fryniau Clwyd. Edrychwn ymlaen i fod yn archeolegwyr yn cloddio am hen arteffactau cyfnod y Celtiaid gan obeithio y down ni o hyd i bethau arbennig.

**Uned dan 11**

Mae hi'n dymor newydd, ac yn thema newydd yma yn yr uned dan 11! Pencampwyr ydi ein thema y tro yma, ac mae'r disgyblion wedi bwrw iddi yn syth gan ysgrifennu e-byst i gael noddwyr newydd i'n dillad rygbi a phêl rhwyd gan weithio yn galed i ddylunio'r crysau eu hunain.

Ond mae hi'n gyfnod rhyfedd iawn yma yn yr uned wrth i ni gychwyn ein tymor heb Mrs Roberts (Anti Mair i chi a fi). Rydym yn dymuno ymddeoliad hapus iawn iddi ac yn gobeithio bydd hi'n mwynhau'r holl amser ymlacio, trefnu blodau ac wrth gwrs coginio digon o gacennau i staff yr ysgol! Diolch yn fawr iawn Mrs Roberts ein Pencampwraig o fri. Fydd hi'n chwith yma hebddo chi.





**Diolch**

Diolch o galon i blant, staff, cyn-staff a rhieni Ysgol Twm o'r Nant am eu haelioni ar achlysur fy ymddeoliad. Rwyf wedi gweithio yn yr ysgol am gyfnod o dri deg mlynedd ond wedi bod yn gysylltiedig â'r ysgol am gyfnod o bedwar deg o flynyddoedd pan ddechreuodd y plant, Gwenan ac Ioan yn yr ysgol ac yna Myfyr, Dewi a Sioned ac, yn ddiweddarach, yr wyrion - Awen, Guto ac Elen Mair.
Diolchaf am bob cerdyn, rhoddion hael, blodau, y dymuniadau da a'r carped coch! Rwyf yn hynod ddiolchgar i Dyfan Mael Phillips am y gerdd ac i Elen Mair Evans – DoodleBee am ei gwaith celfyddyd.Diolch yn fawr iawn i gyn-staff am ddod i'r ysgol am baned a sgwrs ar y prynhawn dydd Mercher – roedd yna dipyn o sgwrsio!
*Mair Roberts*



Diolch Anti Mair

Anodd credu, dyma'r dydd,
ffarweliwn ag un ffyddlon.
Diwedd cyfnod yma sydd,
derbyniwch ein cyfarchion.

Yn gryf fel Côr y Cewri,
ac un hynaws hardd yw hon.
Yn dlotach fyddwn hebddi,
oes o lafur da a llon.

Yn llif y Nant bu'n llonni,
Neu hwyl candifflos mewn ffair.
Da yw ein hiaith, cadwn hi,
Hoff arwyddair Anti Mair.

Un frwd llawn ynni ffyddlon,
â gwên mor fawr a'i chalon.
Anti Mair i'r staff a'r plant,
sy'n drysor aur Twm o'r Nant.


## Atebion EBRILL 2023

**Ar Draws :**
8. Clasurol
9. Asgwrn
10. Asyn
11. Y Wawr
12. Stôl
13. Brodorol
16. Dynodi
18. Ebol
20. Argon
21. Ward
22. Canrif
23. Rownderi
26. Ynys
28. Esgob
30. Amdo
31. Rhefru
32. Gweladwy

**I Lawr :**
1. Pleser
2. Asen
3. Brwydr
4. Wlna
5. Caeredin
6. Agos
7. Arfordir
14. Dolur
15. Lager
17. Niwed
19. Blaendal
20. Anfoesol
24. Wybren
25. Radiws
27. Swta
29. Gogr
30. Afal

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR MAI 2023




**Ar Draws :**
8. e.e.Rhewl a Llanrhaeadr
9. Rhyfeddol 10. 100 centimetr
11. Caiff rhain eu cynnau ar Dachwedd 5ed
12. ac 14. Pentref ger Porthmadog (14)
15. Wyneb crwm yn bochio allan
17. Ychwanegol
20. Sêr-ddewiniaeth
22. Brwsio
23. Breuddwydio liw dydd
24. Dihiryn
25. Seremoni mewn eisteddfod
26. Andrew John yw ........ Cymru

**I Lawr :**
1. Mynd i siopa ar ran rhywun
2. Cynnwrf
3. Glaslanc
4. Drygioni
5. Ergyd i ochr y pen
6. Yn perthyn i gorff proffesiynol
7. Ar y stryd hon cychwynodd Kermit the Frog ei yrfa
13. Rowndiau cyntaf mewn cystadleuaeth
16. Galarnadu
18. Brîd o gi
19. Mynedfa
21. Hudolus
22. Glanhau gyda dŵr
24. “.... Osian”, cân o sioe gerdd Nia Ben Aur

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482


J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

# ‘Cywilydd Mawr America:
## Robert Everett a'r ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth’
### Darlith gan yr Athro Jerry Hunter

Eleni, fel rhan o arlwy Gŵyl Ganol Haf Dinbych, bydd yr Athro Jerry Hunter o Brifysgol Bangor yn ymuno â ni yng Nghapel Lôn Swan ar Nos Fercher 21 Mehefin am 7yh er mwyn ein cyflwyno i hanes Robert Everett – ‘un o arwyr angof Cymru’ yn ôl un.

Urddwyd Robert Everett yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych, ym 1815. Ar ôl gwasanaethu yn Ninbych am dros saith mlynedd, ymfudodd â'i deulu i dalaith Efrog Newydd er mwyn gwasanaethu Annibynwyr Cymraeg yr Unol Daleithiau. Coleddai nifer o achosion moesol, ond daeth yn adnabyddus yn anad dim am ei waith fel diddymwr. Gan ddefnyddio'r pulpud, yr ysgrifbin, y wasg argraffu, cymdeithasau lleol a phleidiau gwleidyddol cenedlaethol, aeth ati i radicaleiddio Cymry America a'u hannog i weithredu er mwyn rhyddhau'r caethweision yn y taleithiau deheuol. Er bod llawer o Americanwyr Cymraeg wedi chwarae rhan yn yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth, y Parchedig Robert Everett oedd yr enwocaf a'r mwyaf dylanwadol ohonynt.

Gwasanaethodd Robert Everett gymuned Gymraeg gogledd America, yn lais radical dros hawliau merched a heddychiaeth. Yn ei gyfnod roedd ei ddylanwad yn hynod eang, ac mae’n gwbl briodol i ni gofio’r cyfraniad hwnnw yn Ninbych ddwy ganrif union wedi iddo adael pulpud Lôn Swan.

Ein darlithydd yw’r Athro Jerry Hunter, sy’n Americanwr ei hun ac yn arbenigwr ar fywyd y Cymry yn yr Unol Daleithiau. Mae’n ddarlithydd byrlymus a gafaelgar, a dylai fod yn noson cwbl ragorol! Trwy gyfrwng y Gymraeg fydd y ddarlith yn bennaf, ond bydd posib i nifer cyfyngedig dderbyn cyfieithiad ar y pryd hefyd, felly soniwch wrth rai a fyddai’n dymuno clywed yr hanes ond sydd efallai ddim yn hyderus wrth wrando ar ddarlith yn Gymraeg.

Trefnir y noson ar y cyd rhwng Menter Iaith Sir Ddinbych a rhai o gapeli’r dref, fel rhan o raglen Gŵyl Ganol Haf Dinbych Ceir hefyd gyfle i ymweld â thri o gapeli hanesyddol Dinbych yn ystod y prynhawn, cyn y ddarlith. Bydd drysau Capel Pendref, Capel Mawr a Chapel Lôn Swan i gyd ar agor o 3 – 6pm ar y diwrnod.



Yr Athro Jerry Hunter

Bydd mynediad i’r ddarlith yn rhad ac am ddim ond croesewir cyfraniadau ar y noson tuag at gostau’r Capel.

I gadw sêt ac i gofrestru o flaen llaw ar gyfer cyfieithu ar y pryd, cysylltwch â Llyfrgell Dinbych ar 01745 816313 neu e.bostiwch llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk

Menter Iaith Sir Ddinbych
Gŵyl Ganol Haf Dinbych Denbigh Midsummer Festival

Y BIGWN

# YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i’r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi’r ymateb yn bositif i unrhyw un o’r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)


CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk
**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

# O Drawsfynydd i Ddyffryn Clwyd

Pan ddes i yma i Ddinbych dros 50 mlynedd yn ôl ychydig a wyddwn mod i'n dilyn ôl-traed fy nghyndeidiau, er mai o Sir Feirionnydd y daethant hwy a nid o Lanrwst lle ges i'n magu.

Pam nes i ddechrau hel achau tua 20 mlynedd yn ôl dysgais yn fuan iawn am fy hen hen daid ar ochr fy mam, Cadwaladr Roberts, Cefnddwysarn, dyn hynod iawn, yn saer troliau (wheelwright) a meddyg gwlad yn ôl y sôn. Gallai rhywun ysgrifennu erthygl swmpus os nad llyfr amdano ond nid dyma'r lle i hynny.

Dim ond yn ddiweddar dwi wedi dilyn ei achau yn ôl ymhellach. Gwyddwn iddo gael ei eni yn Nhrawsfynydd tua 1815 ond dim mwy na hynny. Archebais ei dystysgrif priodas a chael gwybod ei fod yn fab i Robert Cadwalader. Ia, roedd y dull patronymig ar batrwm yr hen arferiad 'ap' yn dal yn fyw yn Nhrawsfynydd yn y cyfnod hynny ond, fel y gwelwn isod, yn brysur ddiflannu. Enw ei fam oedd Elin Edmwnt neu, yn swyddogol, Eleanor Richards. Mae hi'n ymddangos mewn cofnodion o dan 4 cyfenw gwahanol ac amrywiadau ohonynt! Sut hynny, meddech chi? Wel enw ei thad oedd Edmund Richard. Dyma gofnod o'i bedydd yn nghofrestri plwyf Trawsfynydd




Mae trawsgrifiadau o'r cofnod hwn yn ei chofnodi fel Eleanor Richard gan ddilyn y patrwm Seisnig.. Dyma ei enw ar ei chofnod priodas hefyd ond gyda ychwanegiad o 's' i'w gwneud yn Eleanor Richards. Hefyd cofnodir ei henw weithiau fel Ellin ag Elinor ac unwaith hyd yn oed fel Ellis mewn camgymeriad trawsgrifio am Ellin.

Pan gafod y mab hynaf Edmund ei eni mae hi yn cael ei chofnodi fel Ellin Edmund. Dyma fyddwn yn tybio oedd hi'n cael ei galw ar y pryd yn dilyn y dull patronymig ar gyfer merched hefyd.

Pan briododd a Robert Cadwalader gwelir ei henw fel Eleanor Cadwalader mewn trawsgrifiadau ond mae'n debyg iddynt ddefnyddio Roberts fel cyfenw yn fuan wedyn, efallai i ddilyn y plant ond hefyd yn cyd-fynd a chyfenw tad Robert sef Cadwalader Robert.

Y math yma o beth, yn ogystal a chymaint yn dwyn yr un enwau, sy'n gwneud olrhain achau Cymreig mor anodd!

Dwi ddim wedi gallu dilyn achau Robert yn ôl mwy nag un cenhedlaeth ond stori wahanol ydi efo Eleanor. Dwi wedi llwyddo i ddilyn ei hachau hi yn ôl i Owain Dafydd (Owen David) a aned yn 1619 a'i fab Gwilym ap Owain Dafydd (William ap Owen David) o Ffridd y Bryn Coch, Llanddwywe. Er fod pentre bach Llanddwywe yn Ardudwy ger Talybont mae'r plwy yn ymestyn draw at ochr arall y Rhiniog Fawr at lwybr presennol yr A470 i'r de o Drawsfynydd a mae Ffridd Bryn Coch rhyw 1km i'r Gorllewin o'r ffordd rhwng Trawsfynydd a Ganllwyd.

Mae tir y ffarm a'r ardal honno yn llawn o olion cyntefig a chanoloesol. Olion tŷ hir Ffridd Bryn Coch, hen gorlan ddefaid, maen hir, carnedd ag wrth gwrs mae'r darn syth cyfagos o'r A470 yn dilyn y ffordd Rufeinig Sarn Helen.

Ond yn ôl i deulu Robert ag Eleanor. Roeddynt yn amlwg ddim yn rai oedd yn hapus yn aros mewn un lle trwy eu hoes! Yn dilyn eu priodas yn Nhrawsfynydd yn 1813 ganed 3 mab iddynt yno yn Nhrawsfynydd, Edmund yn y Garnedd Lwyd a Cadwaladr a Robert yn Cefn. Mae'n bosib hefyd mai ail wraig i Cadwaladr oedd Eleanor a bod o leiaf un ferch o briodas flaenorol fu farw'n ifanc ond dwi'n dal yn chwilio am dystiolaeth gadarn o hynny. Roedd y Garnedd Lwyd yn dy teras yn y Pentre yn yr un rhes a'r tŷ ble ganed Hedd Wyn. Bu aelodau o'r teulu hefyd yn byw yn yr Ysgwrn. Sgwn i oeddcysylltiad efo teulu Hedd Wyn. Dwi'n dal i chwilio am hynny!

Rhywbryd tua 1818 symudodd y teulu i ffarmio yng Nghraig y Ronw, Cwm Tryweryn, a tua'r un pryd symudodd brawd Eleanor, Richard Edmund a'i wraig Anne (Pugh) i Cae Garnedd y ffarm drws nesaf. Mae'r ffermydd hyn erbyn hyn ar lan Llyn Celyn gyda llawer o'i tiroedd dan y dŵr. Dwi'n ceisio darganfod os oedd aelodau o'r teulu yn dal yn ardal pan foddwyd y cwm ond heb eto ddarganfod hynny.



**Ar dudalen 2** mae hen fap o'r cwm gyda chysgod Llyn Celyn wedi ei osod arno. Mae'r ffermydd lle bu aelodau o'r teulu'n byw wedi eu marcio.

Yn Craig y Ronw ganed 12 plentyn arall i Robert ag Eleanor yn gwneud 15 i gyd!

Erbyn 1851 roedd brawd Eleanor wedi marw a'i weddw a'i theulu wedi symud i Graig y Ronw tra roedd Robert, Eleanor a'r plant iau wedi symud i Dy'n Llwyn nid nepell o Lanfihangel Glyn Myfyr tra arhosodd rhai o'r plant hŷn yn Sir Feirionnydd gan gynnwys Cadwaladr fy hen hen daid a fu'n lojio yn Moelfryn (gweler y map) cyn priodi a setlo yn Nghefnddwysarn.

Mae Tŷ'n Llwyn yn nghysgod Craig Ddunod, bryngaer Geltaidd ger lan yr Afon Alwen.Ni allaf ddod o hyd i gofnod o'r teulu yng nghyfrifiad 1861 ond erbyn 1871 'roeddynt wedi symud i'r Wern Isa, Nantglyn ar lethrau Mynydd Hiraethog. Roedd Robert yn ŵr gweddw ac roedd 3 o'r plant yn dal adref efo fo, Richard, Edward a Jane. Mae'r tŷ wedi ei ddymchwel erbyn hyn a dim ond siediau ar ôl ar gyfer pwy bynnag sy'n ffarmio'r tir.

Edward fu'n ffarmio Wern Isa ar ôl ei dad ac yna Evan ei fab yntau. Bu farw Evan yn 1956 a dyna'r cofnod olaf sydd gen i o'r teulu yn Nantglyn.

Bu Robert Roberts, brawd i Evan yn byw yn Ninbych am gyfnod byr. Roedd yn yrrwr tracsiwn i Fferm yr Eglwys Wen ac yn byw yn Nheras Greenbank yn Ffynnon Barcer. Mae gennyf ofn mai diwedd trist gafodd, yn 27ain oed. Bu iddo ladd ei hun yn dilyn salwch o bosibl a achoswyd gan rhyw fath o dwymyn gwres. Roedd wedi priodi ychydig cyn hynny ond hyd y gwn ni fu plant.

Dwi wedi bod yn ceisio olrhain hanes disgynyddion eraill Robert ag Eleanor a wedi gallu olrhain ambell un am genhedlaeth neu ddwy ond ychydig iawn ymhellach na hynny hyd yn hyn. Byddai disgynyddion i Robert ag Eleanoro'm cenhedlaeth i, yn orcheifnaint i mi. Be meddech chi ydi Gorcheifn? Wel hen enw am gefnder o'r 4edd radd. Mae enwau i berthnasau yn y Gymraeg yn ymestyn hyd y nawfed ach yn dilyn yr hen gyfreithiau Cymreig. Gweler yr enwau am gefndryd ac ati yn y blwch gyda ychydig o ddyfalu ar fy rhan am yr enwau benywaidd lluosog. Dylid eu hadfer i ddefnydd mwy cyffredin!

Ges i brawf ADN yn anrheg Nadolig a wedi llwyddo i ddarganfod nifer o berthnasau eraill, nifer oeddwn yn adnabod ers blynyddoedd ond dim syniad eu bod yn perthyn i mi o bell. Yr argraff dwi'n gael ydi byddai bron pawb o dras gogledd Cymru yn perthyn i'w gilydd ar ôl mynd yn ôl ychydig genedlaethau!

I orffen hoffwn ddyfalu ychydig am y ddisgynyddion teulu Wern Isa. Ganed mab i Evan Roberts o'r enw Iorwerth Roberts yn 1932. Tybed ai Iorwerth Roberts, cyn-ohebydd y Daily Post oedd o? Ganed ef yn yr ardal tua'r adeg iawn. Oes na rhywun o ddarllenwyr Y Bigwn allai gadarnhau hynny? Byddwn yn ddiolchgar iawn. Gallwch anfon neges at achau@berry.cymru.

| Gradd | Perthynas | Benywaidd | Lluosog | Benywaidd Lluosog |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cefnder | Cyfnither | Cefndryd | Cyfnitheroedd |
| 2 | Cyfyrder | Cyfyrderes | Cyfyrdyr | Cyfyrderesau |
| 3 | Caifn | Ceifnes | Ceifnaint | Ceifnesau |
| 4 | Gorchaifn | Gorcheifnes | Gorcheifnaint | Gorcheifnesau |
| 5 | Gorchaw | Gorchawes | Gorchawon | Gorchawesau |



Llun i'r plant ei liwio

Gwefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO** Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

**Darlith**
Dr. Mary Thorley, cyn-bennaeth Hyfforddiant Athrawon yng Ngholeg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, oedd ein siaradwr ar-lein gwadd yn ddiweddar. Mae Mary yn hanu o Gaerfyrddin yn wreiddiol ac mae ganddi PhD yn Hanes Merched Cymru. Bu'n sôn wrthon ni am **Rachel Barrett (1874-1953), Swffragét Gymraeg ac Ymgyrchydd Radical**, oedd hefyd yn hanu o Gaerfyrddin. Roedd Rachel yn un o ffigurau blaenllaw mudiad y bleidlais i fenywod. Roedd ganddi ymennydd eithriadol ac roedd hi'n un o'r menywod cyntaf i raddio mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn y 1890au hwyr. Bu'n gweithio fel athrawes mewn gwahanol ysgolion, ond ar ôl dechrau mynychu cyfarfodydd yn cefnogi pleidlais i fenywod, ac ar ôl i llun ohoni yn cael ei tharo gan fom-blawd gael ei gyhoeddi, bu'n rhaid iddi hi adael ei swydd yn 1907 oherwydd gwrthwynebiad ei phrifathrawes. Cychwynnodd ar gwrs yn Ysgol Economeg Llundain, ond buan y gadawodd er mwyn llwyr ymroi i waith y Mudiad.



Swffragets yng Nghaerdydd, Cymru dros Heddwch 1918

Gweithiodd yn agos gyda'r Pankhursts a daeth i fod yn un o ffigurau blaenllaw y Mudiad. Hi oedd y trefnydd yng Nghymru am adeg ac, ar ôl symud i Lundain, bu'n gyd-olygydd cylchgrawn *The Suffragette* gyda Christabel Pankhurst, a hi oedd y ffotograffydd swyddogol. Roedd hi'n ddawnus, ac yn areithiwr a thrafodwr penigamp a byddai'n siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus ar draws y DU, gan gynnwys y ralïau mawr yn Hyde Park, Llundain. Mewn un rali yn 1908 roedd tua hanner miliwn o bobl yn bresennol, yn ferched a dynion. Cafodd ei harestio yn 1913 a'i charcharu yng ngharchardai Holloway a Chaergaint ar gyhuddiadau o gynllwynio. Bu ar streic, yn gwrthod bwyta ac yfed, a chafodd ei bwydo mewn ffordd greulon, mewnwthiol yn erbyn ei hewyllys dros ddeugain gwaith. Ar ôl cael ei rhyddhau, er bod rhaid iddi hi guddio oddi wrth yr heddlu nifer o weithiau, parhaodd i olygu'r cylchgrawn bob wythnos.
Yn ystod y rhyfel, gollyngodd y Swffragéts eu brwydro i gefnogi'r ymdrech genedlaethol dros y rhyfel, a chafodd Rachel bardwn ar yr amod ei bod yn cefnogi'r ymdrech. Bu'n athrawes fathemateg ac yn siaradwr dros y Weinyddiaeth Fwyd. Ar ôl y rhyfel, teithiodd ar draws UDA gyda'r nofelydd, Ida Wylie. Arhosodd Ida yn UDA yn y 1930au ond dychwelodd Rachel i Loegr.
Yn 1918, pasiwyd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl a alluogodd menywod dros 30, oedd yn berchen eiddo, i bleidleisio. Yn 1928 cafodd menywod dros 21 yr hawl i bleidleisio yn y Ddeddf Etholfraint Gyfartal.
Cwestiwn Mary Thorley ar ddiwedd y ddarlith oedd pam nad oedd Rachel Barrett wedi derbyn yr un sylw a chlod â'r ymgyrchwyr eraill? Ei hateb oedd bod Rachel tu ôl y camera, yn tynnu'r lluniau, yn hytrach nag o flaen y camera. Newidiodd Mary deitl ei darlith i **Rachel Barrett, Swffragét Gymraeg ac Ymgyrchydd Radical, sy'n haeddu llawer mwy o sylw.** Mae'n amlwg bod Mary yn cynorthwyo i gyflawni hyn.
I gofio am Rachel Barrett, mae placiau glas



*Geiriad Plac Llandeilio*

ARCHIF MENYWOD CYMRU

WOMEN'S ARCHIVE WALES

wedi cael eu gosod ar dri thŷ lle bu hi'n byw, yn Llandeilo, Caerfyrddin a Sible Hedingham yn Sussex.
Cyfeiriodd Mary at **Archif Menywod Cymru**, sefydliad sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr er mwyn:

- "adnabod ac achub defnyddiau sy'n ymwneud â bywydau menywod yng Nghymru yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, ac annog eu rhoddi ar adnau yn y gadwrfa gyhoeddus briodol.
- hyrwyddo dealltwriaeth o rolau menywod yn hanes Cymru, a chynnwys menywod yn yr hanes a addysgir mewn ysgolion ac mewn addysg uwch."

Maen nhw'n chwilio am gofnodion bywydau a phrofiadau menywod, mudiadau menywod a chyflogaeth ac yn hyrwyddo cydnabyddiaeth o'u harwyddocâd hanesyddol. Maen nhw'n gweithio gyda gwasanaethau archifau sirol Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfeydd Cymru, archifau Prifysgol a chadwrfeydd eraill i gofnodi, cadw a gwneud y defnyddiau hyn yn hygyrch i'r cyhoedd. Maen nhw hefyd yn hyrwyddo astudio ac ymchwilio i bob agwedd ar fywydau menywod yng Nghymru, gan gynnwys noddi gwobr yng nghystadleuaeth flynyddol Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig. **www.whsi.org.uk**

Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar eu gwefan: **www.womensarchivewales.org**



Phil, Arfor a Vesi yn ail-drefnu Ystafell y Pedwardegau




David yn glanhau Ffonograff Edison



Martyn yn glanhau Radio Bush

**Paratoi ar gyfer y tymor newydd**
Mae'r gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur yn glanhau a sgleinio'r arddangosion erbyn y tymor newydd.
Rydym bob amser yn awyddus i groesawu gwirfoddolwyr newydd i'n plith. Does dim rhaid i chi lanhau! Mae pawb yn cael cyfle i ddatblygu eu doniau a'u diddordebau personol.

**O'r casgliad**
Dyma rodd ddiweddar i'r Amgueddfa, bocs pren oedd yn arfer cynnwys Gecophone BC3045R, derbynnydd cludadwy pedair-falf a gynhyrchwyd gan GEC yn 1930, pris £21. Roedd y derbynnydd fel cas dillad â seinydd yn y caead, a'r radio a'r batris yn y gwaelod. Sylwch ar wneuthuriad gofalus y bocs, yn arbennig yr uniadau cynffonnog. "Dydyn nhw ddim yn eu gwneud nhw fel 'na mwyach!"




Bocs gecophone BC3045R

**Digwyddiadau'r dyfodol**
Ar Fai'r 19eg, bydd David Crawford yn sgwrsio yn Saesneg am **Syr Jimmy Shand, Cerddor o'r Alban a Darlledwr** (1908 -2000), oedd yn chwarae ac yn cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer yr acordion. Bydd yn olrhain gyrfa'r dyn hynod hwn o'i wreiddiau tlawd fel glöwr yn Fife at ei gyfnod fel artist recordio llwyddiannus a cherddor adnabyddus ar radio a theledu. Bydd hefyd yn sôn am "The White Heather Club", rhaglen deledu BBC yr Alban, gan mai Jimmy Shand oedd y cerddor arweiniol.
Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru

**Ymweld â'r Amgueddfa**
Mae'r Amgueddfa ar agor bob dydd Sadwrn, 11.00yb – 4.00 yp.
Os ydych am ymweld ar unrhyw adeg arall, cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.cymru i drefnu.
Croeso cynnes i bawb.

J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

GWASANAETH HURIO BEICIAU TRYDAN YN SIROEDD DINBYCH A CONWY
E-Beics LLAN E-Bikes
(wedi'w leoli yn Henllan)
Cysylltwch hefo DEWI: Ffôn:07788 270138
E-Bost:info@llanebikes.co.uk
Gwefan:llanebikes.co.uk

## Diwrnod i'r Aelodau 15/04/23

Yn ddiweddar, un o brif ffocysau Clwb Rygbi Dinbych yw sut y gall gwahanol gydrannau'r Clwb gydweithio'n well h.y. sut fedrem fod yn fwy o 'Un Clwb'. Fel rhan o'r prosiect hwn, cytunwyd y dylem wahodd ein haelodau i ddigwyddiad yn y Clwb.

Ar bnawn Sadwrn, 15fed Ebrill croesawyd dros 50 o aelodau a noddwyr CRD i'r clwb a chafwyd prynhawn o adloniant dan arweiniad ein Llywydd, Tegid Phillips, môr o ganu gydag Emyr 'Slotter' Thomas ac er gwaetha'r sgôr, 80 munud o rygbi cyffrous rhwng tîm cyntaf Dinbych a Chaernarfon.

Diolch yn fawr iawn i…

Jane Jones a'r genod yn y gegin am weini bwyd blasus i'r aelodau a'r chwaraewyr, Carla Rizzi a'i staff am dorri syched pawb

Nerys Patterson am wneud cacennau anhygoel CRD

Brian Thomas am gyfrannu crys Rygbi Gogledd Cymru wedi ei llofnodi gan dîm Rygbi Gogledd Cymru i'r raffl ac hefyd cyflwyno tancer 'Seren y Gêm' i Gruff Roberts

Cigydd 'John Henry Jones' a busnes lleol 'Meirion Davies' am eu cyfraniad i'r raffl a Henllan Bakery am anfon llond bocs o gacennau melys i'n gwesteion.

Mae rhai unigolion yn barod wedi gofyn am ddigwyddiad tebyg ar ddechrau tymor 2023-24. Syniad da!!

**Beth Wyn Jones** - Cadeirydd Pwyllgor Cymdeithasol Clwb Rygbi Dinbych.

Lluniau mewn i'r clawr cefn

Mae CPD Tref Dinbych wedi cyrraedd rownd derfynol Tlws FAW Dragon Signs am y tro cyntaf ers 1924 ar ôl curo Bridgend Street o Gaerdydd o 8-1 yn y rownd gynderfynol yn Llanidloes. Trethomas Bluebirds, sydd hefyd o Gaerdydd, fydd eu gwrthwynebwyr yn y ffeinal ddiwedd mis Ebrill gyda'r gêm yn cael ei chwarae yn y Drenewydd.

Dyma'r ail dro erioed i Ddinbych ymddangos mewn cystadleuaeth Cwpan Cenedlaethol Cymru, gyda'r llall 99 o flynyddoedd yn ôl ym 1924 pan guron nhw Lovell Athletic o 2-1 yn Yr Wyddgrug. Dyma gamp anhygoel i'r tîm.

Mae gan y Clwb y posibilrwydd o guro'r trebl eleni wrth iddyn nhw hefyd gyrraedd ffeinal Cwpan Ardal Gogledd Lock Stock ar ôl trechu Llanfair-ym-Muallt o 5-1. Daeth y goliau ym Mharc Canolog gan Matthew Worrall (2), Jake Walker, Nathan Brown ac Ollie Hansen. Bydd y ffeinal yn cael ei chwarae yn Bow Street ar Fai 20fed. Bydd y Clwb yn rhedeg bysiau i'r gêm hon felly cadwch lygad ar wefannau cymdeithasol y Clwb am fwy o fanylion.

Y trydydd tlws mae'r Clwb yn anelu amdano yw Teitl Cynghrair Ardal Gogledd Orllewin Lock Stock. Wrth i'r erthygl hon gael ei chyhoeddi, mae'r Clwb angen un ar ddeg pwynt o'r pum gêm sy'n weddill ganddynt er mwyn sicrhau dyrchafiad ac ennill y gynghrair.

Yn ystod y mis diwethaf, maen nhw wedi ennill pum gêm yn olynol ac felly maen nhw ar hyn o bryd yn y trydydd safle, o fewn trwch blewyn i deitl y gynghrair. Mae'r rheolwr, Dewi Llion Jones hefyd wedi ennill tlws Rheolwr y Mis Ardal Gogledd Orllewin Lock Stock am yr ail fis yn olynol.

Wedi buddugoliaeth o 4-0 gartref yn erbyn Llay Welfare, gwelwyd buddugoliaeth arall oddi cartref yn erbyn CPD Y Felinheli o 6-2. Curo o 2-1 yn erbyn Hawarden Rangers oedd eu gêm nesaf, yna buddugoliaeth anhygoel o 4-0 oddi cartref yn erbyn arweinwyr y gynghrair CPD y Rhyl 1879.

Gêm gyfartal o 1-1 gafodd yr Ail Dîm dan reolaeth Liam Nash yn ddiweddar yn erbyn Llangollen, gyda Nash yn gorfod camu mewn fel chwaraewr canol cae gyda Ryan Roberts. Colli oedd eu hanes yn erbyn Ail Dîm Rhuthun o 4-1 gyda Kristian Pierce yn sgorio i Ddinbych gyda chic o'r smotyn.

Yn rownd gyn derfynol Cwpan Merched Gogledd Cymru, colli oedd hanes y tîm Merched yn erbyn Airbus o 2-0 ym Mharc Canolog. Yn y gynghrair, maent wedi cael dwy gêm gyfartal – 2-2 yn erbyn y Fflint a 4-4 yn erbyn Amlwch mewn gêm anhygoel gyda goliau gan Elen Jones (2), Roslyn Fryer ac Eluned Evans.

Cynhaliwyd dwy gêm ryngwladol ym Mharc Canolog yn ystod y mis diwethaf gyda thîm Merched Cymru dan 19 yn herio Kazakstan ac Estonia yng ngemau rhagbrofol Ewro dan 19 UEFA. Merched Cymru enillodd y ddwy gêm gan guro o Kazakstan 5-2 ac Estonia o 4-0. Er y tywydd gwael, daeth torf o 250 o bobl i Barc Canolog i gefnogi.

Roedd yr FAW wedi eu plesio'n arw gyda chyfleusterau a threfniadau'r Clwb ar gyfer y ddwy gêm ac maent yn gobeithio cynnal mwy o gemau yma yn y dyfodol agos.

Roedd hi'n hynod o drist gan y Clwb o glywed am farwolaeth sydyn Cliff Kearns, ac yntau wedi bod yn gwylio'r gêm yn erbyn Llanfair ym Muallt ychydig ddyddiau ynghynt. Roedd gan Cliff gysylltiadau gyda'r clwb o oedran ifanc wedi iddo chwarae iddynt am y tro cyntaf yn 14 oed, chwarae i'r Clwb dros sawl blwyddyn cyn dod yn aelod gwerthfawr o'r Pwyllgor. Yn ei flynyddoedd olaf, daeth yn Llysgennad i'r Clwb gan groesawu chwaraewyr a chefnogwyr i Barc Canolog. Bydd colled enfawr ar ei ôl.

Lluniau ar y clawr cefn

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

# C.R.D



Codi Canu gydag Emyr 'Slotter' Thomas



David Jones, capten y tîm fuddugol yn y cwis




Enillodd Tom Williams crys Rygbi Gogledd Cymru yn y raffl




Trefnwyr y diwrnod yn arddangos cacennau Henllan Baker. (Llywydd Clwb Rygbi Dinbych, Tegid Phillips a Beth Wyn Jones)



Brian Thomas yn mwynhau cacennau CRD Nerys Patterson



Seren y Gêm - Gruff Roberts



Enillydd taleb Meirion Davies, Mike Parker



Enillydd taleb cigydd John Henry Jones, John Davies



# C.P.D.



Llysgennad y Clwb, Cliff Kearns a hunodd yn ddiweddar, yn croesawu Billy Stark, hyfforddwr Tîm Dan 19 yr Alban i Barc Canolog yn 2018.




Gôl Jason Foulkes yn erbyn CPD y Rhyl 1879.



Chwaraewr canol cae Dinbych Dan Parry Jones yn chwarae yn erbyn Llanfair-ym-Muallt.



Y dorf ym Mharc Canolog yn gwylio gêm Merched Cymru Dan 19.




## Dyfodol Y Bigwn

**Cynhelir cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Y Bigwn yn Festri Capel y Fron ar nos Lun Mehefin 12fed, am 7 o'r gloch. Gweler tudalen 3 am fwy o fanylion.**